

Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Medi 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/12430>

17(v3)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 1 a 9 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.10



Gwnaeth Samuel Kurtz ddatganiad am: Diwrnod Cefnogi Ffermio Prydain (15 Medi).

Gwnaeth Jack Sargeant ddatganiad am: Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd (10 Medi).

Gwnaeth Heledd Fychan ddatganiad am: 40 mlwyddiant CND Cymru (Medi 1981).

Gwnaeth Sioned Williams ddatganiad am: 10 mlynedd ers trychineb gwaith glo Gleision (Medi 2011)

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 15.17 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd.

5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Mynediad at ddiffibrilwyr

Dechreuodd yr eitem am 15.32

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

DM7771 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi mai dim ond 1 o bob 10 o bobl sy'n goroesi ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty.
2. Yn nodi ymhellach bod pob munud nad oes gan glaf fynediad i ddiffibriliwr neu adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn golygu bod eu siawns o oroesi yn gostwng 10 y cant.
3. Yn cydnabod y bydd rhwydwaith o ddiffibrilwyr yn achub bywydau.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid grant neu fenthyciadau i alluogi neuaddau cymunedol, meysydd chwaraeon a siopau annibynnol i brynu a gosod diffibriliwr.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	0	28	55

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 [Lesley Griffiths \(Wrecsam\)](#)

Dileu pwynt 4 a rhoi pwyntiau newydd yn ei le:

4. Yn cydnabod y cyllid gwerth £2.5 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Achub Bywydau Cymru i wella ymwybyddiaeth a mynediad at CPR a diffibrilwyr.
5. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ychwanegu £500,000 eleni at y cymorth hwn i gynyddu ymhellach nifer y diffibrilwyr mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
42	0	12	54

Derbyniwyd gwelliant 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

DM7771 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi mai dim ond 1 o bob 10 o bobl sy'n goroesi ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty.
2. Yn nodi ymhellach bod pob munud nad oes gan glaf fynediad i ddiffibriliwr neu adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn golygu bod eu siawns o oroesi yn gostwng 10 y cant.
3. Yn cydnabod y bydd rhwydwaith o ddiffibrilwyr yn achub bywydau.
4. Yn cydnabod y cyllid gwerth £2.5 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Achub Bywydau Cymru i wella ymwybyddiaeth a mynediad at CPR a diffibrilwyr.

5. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ychwanegu £500,000 eleni at y cymorth hwn i gynyddu ymhellach nifer y diffibrilwyr mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
43	11	0	54

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

6 Dadl Plaid Cymru – Credyd Cynhwysol

Dechreuodd yr eitem am 16.23

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7772 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn condemnio cynnig Llywodraeth y DU i gael gwared ar y cynnydd o £20 mewn credyd cynhwysol sydd wedi bod yn llinell gymorth hanfodol i deuluoedd yng Nghymru yn ystod cyfnod y pandemig.
2. Yn cydnabod y bydd y toriad i gredyd cynhwysol yn effeithio ar gyfran uwch o deuluoedd yng Nghymru na chyfartaledd Prydain yn ôl Sefydliad Bevan.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
 - a) ymlid datganoli lles gyda'r bwriad o fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.
 - b) cyhoeddi cynllun cadarn ac ystyrllon i fynd i'r afael â thlodi, sy'n cynnwys targedau perfformiad clir a dangosyddion i fesur cynnydd.
 - c) cynnal hyblygrwydd y gronfa cymorth dewisol i leddfu effaith gostyngiad credyd cynhwysol ar bobl yng Nghymru.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
13	0	41	54

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i ddarparu £20 yr wythnos yn ychwanegol mewn credyd cynhwysol i gefnogi'r rhai ar incwm isel yn ystod pandemig y coronafeirws ac yn cydnabod bod y mesur dros dro hwn eisoes wedi'i ymestyn o 12 i 18 mis.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
14	0	40	54

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y ffaith bod lefelau tlodi yng Nghymru yn uwch nag mewn rhannau eraill o'r DU oherwydd methiant Llywodraethau olynol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
14	0	40	54

Gwrthodwyd gwelliant 2.

Gwelliant 3 [Lesley Griffiths \(Wrecsam\)](#)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

3. Yn nodi'r gwaith gwneud y gorau o incwm sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i gefnogi teuluoedd ar incwm isel

4. Yn annog Llywodraeth Cymru i:

a) barhau i archwilio'r achos dros ddatganoli gweinyddiaeth lles; a

b) cynnal hyblygrwydd presennol y gronfa cymorth dewisol i leddfu effaith unrhyw ostyngiad credyd cynhwysol a diwedd y cynllun ffyrlo ar bobl yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	11	16	54

Derbyniwyd gwelliant 3.

Gan fod gwelliant 3 wedi ei dderbyn, cafodd gwelliannau 4 a 5 eu dad-ddethol

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM7772 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn condemnio cynnig Llywodraeth y DU i gael gwared ar y cynnydd o £20 mewn credyd cynhwysol sydd wedi bod yn llinell gymorth hanfodol i deuluoedd yng Nghymru yn ystod cyfnod y pandemig.

2. Yn cydnabod y bydd y toriad i gredyd cynhwysol yn effeithio ar gyfran uwch o deuluoedd yng Nghymru na chyfartaledd Prydain yn ôl Sefydliad Bevan.

3. Yn nodi'r gwaith gwneud y gorau o incwm sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i gefnogi teuluoedd ar incwm isel

4. Yn annog Llywodraeth Cymru i:

a) barhau i archwilio'r achos dros ddatganoli gweinyddiaeth lles; a

b) cynnal hyblygrwydd presennol y gronfa cymorth dewisol i leddfu effaith unrhyw ostyngiad credyd cynhwysol a diwedd y cynllun ffyrlo ar bobl yng Nghymru.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
40	0	14	54

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

7 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.23 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 17.31

Crynodeb o Bleidleisiau

8 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.41

NDM7770 [Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#)

Byddwn yn eu cofio: pam y mae'n rhaid inni warchod cofebion rhyfel Cymru

Daeth y cyfarfod i ben am 18.07

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Medi 2021